Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau

# Cais am dreth cerbyd

**V10W**

Gweler y nodiadau cyfarwyddyd dros y dudalen.
Am fwy o wybodaeth ewch i **www.gov.uk/treth-car**

**Er mwyn trethu cerbyd nwyddau trwm (HGV) defnyddiwch y 'Cais i drethu cerbyd HGV' (V85W).**

## 1 Eich manylion

Ysgrifennwch mewn **inc du** gan ddefnyddio **PRIFLYTHRENNAU**.

Teitl: Mr ☐ Mrs ☐ Miss ☐ Ms ☐ Arall (Dr, er enghraifft) ☐

Enw busnes neu sefydliad:

Enwau cyntaf:

Cyfenw:

**Cyfeiriad presennol**

Rhif y tŷ:

Tref bost:

Cod post:

## 2 Manylion y cerbyd

**Rhif cofrestru (ysgrifennwch yn y blychau):** 2

**Gwneuthuriad:** **Model:**

**Dosbarth treth rydych yn gwneud cais amdano:**
(Er enghraifft, preifat neu nwyddau ysgafn (PLG), car petrol ac ati).

Os yn PLG, beic neu feic tair olwyn, rhowch union faint yr injan mewn cc.

Os yn fws, faint o seddi sydd yna (gan gynnwys sedd y gyrrwr)?

## 3 Manylion y dreth cerbyd

**Am faint o amser rydych chi am i'r dreth barhau?** **6 mis** ☐ **12 mis** ☐

**Pa fis a blwyddyn rydych chi am i'r dreth cerbyd ddechrau?**
(Ni ellir ôl-ddyddio'r dreth i ddyddiad cyn y dydd cyntaf o'r mis yr rydych yn gwneud y cais hwn)

D D M M B B B B

Yn ôl y gyfraith, mae'n rhaid i bob gyrrwr gael yswiriant modur pan fyddant yn defnyddio cerbyd modur ar y ffordd neu mewn unrhyw fan cyhoeddus arall.
Gall methu â threthu ac yswirio neu wneud HOS ar eich cerbyd arwain at ddirwy neu erlyniad.

**Official use only**
4/25

Date stamp

3 VC

Y M 4 Prefix

5 Fee

O/U Payments (DVLA use only)

6 Mths 6 12 Mths

expiry date (DVLA use only)

SR | V5C change | V5C/2 noted | V62 noted

Method of payment

Chq | PO | Cash | Other

**Os nad oes angen MOT neu Dystysgrif Prawf Cerbyd Nwyddau ar eich cerbyd, llenwch 'Datganiad eithriad rhag cael MOT' (V112W) neu 'Datganiad eithriad rhag prawf cerbydau nwyddau' (V112G) (gweler adran G).**

**Noder: pan fyddwch yn defnyddio'r ffurflen hon yn un o ganghennau Swyddfa'r Post® sy'n delio â threth cerbyd, bydd y wybodaeth arni yn cael ei hanfon atom yn electronig. Bydd yr aelod o staff yn Swyddfa'r Post® yn rhoi'r ffurflen hon yn ôl ichi ynghyd â'r 'Cais am Ddebyd Uniongyrchol' (VDD1W) (os yn berthnasol) gyda derbynneb. Peidiwch ag anfon y cais hwn atom. Cadwch y dderbynneb oherwydd efallai y bydd ei hangen arnoch eto.**

**Peidiwch â defnyddio'r ffurflen hon i drethu cerbyd nwyddau trwm (heblaw nwyddau pobl sioe) neu gerbydau achub. Ar gyfer cerbydau HGV defnyddiwch V85W.**

## A Pam y dylech ddefnyddio'r ffurflen hon

Dim ond os bydd y canlynol yn wir y dylech ddefnyddio'r ffurflen hon:

- nid ydych wedi derbyn 'Nodyn atgoffa i gael treth cerbyd neu wneud Hysbysiad Oddi ar y ffordd Statudol' (V11W)
- bod unrhyw fanylion am y cerbyd (er enghraifft, dosbarth treth) wedi newid
- mae saib wedi bod yn nhrethiant y cerbyd
- rydych am drethu cerbyd yn ystod HOS
- rydych yn gwneud cais am ostyngiad o 50% mewn treth cerbyd drwy ddefnyddio eich hawl Taliad Annibynnol Personol (PIP) neu Daliad Anabledd Oedolion (ADP) drwy'r post

## B Pryd i wneud cais

### Os yw eich cerbyd wedi ei drethu

Gallwch wneud cais o'r diwrnod cyntaf o'r mis y mae eich treth cerbyd bresennol yn dod i ben. Bydd eich treth newydd yn dod i rym o ddiwrnod cyntaf y mis nesaf.

### Os nad yw eich cerbyd wedi ei drethu neu fod HOS arno

Os oes HOS ar eich cerbyd neu nad yw wedi ei drethu ac rydych yn gwneud cais yn y 2 ddiwrnod gwaith olaf o'r mis, gall y dreth ddechrau ar ddiwrnod cyntaf y mis nesaf. Os gwnewch gais cyn hynny bydd eich treth yn cael ei hôl-ddyddio i ddechrau'r mis presennol. (Ystyrir dydd Sadwrn yn ddiwrnod gwaith mewn canghennau Swyddfa'r Post.)

## C Ble a sut i wneud cais

Gallwch wneud cais yn bersonol yn un o ganghennau Swyddfa'r Post sy'n delio â threth cerbyd.

I ddod o hyd i'ch cangen agosaf o Swyddfa'r Post sy'n delio â threth cerbyd, ewch i **www.postoffice.co.uk/branch-finder** neu ffoniwch 0345 722 3344.

Rhaid anfon ceisiadau am ostyngiad treth cerbyd o 50% i DVLA, Abertawe, SA99 1BF. Dylech dderbyn ateb o fewn 4 wythnos i'ch cais cael ei dderbyn.

## D Y dogfennau y bydd angen ichi eu dangos

- **y Dystysgrif Gofrestru V5CW (llyfr log) neu'r slip ceidwad newydd gwyrdd**
- **prawf o MOT dilys (mae copïau electronig yn dderbyniol) neu dystysgrif Prawf Cerbyd Nwyddau (GVT)** – rhaid i'r dystysgrif MOT neu GVT fod yn ddilys ar y dyddiad pan fydd y dreth yn dechrau. Os cafodd eich cerbyd brawf MOT yng Ngogledd Iwerddon, rhaid darparu tystysgrif prawf ddilys. Os oes gennych gerbyd nad oes angen tystysgrif MOT neu GVT arno, gweler adran G gyferbyn
- **os ydych yn hawlio eithriad treth cerbyd neu ostyngiad treth cerbyd o 50% rhaid ichi gyflwyno un o'r canlynol** – Tystysgrif Hawl i DLA, Tystysgrif Hawl i Daliad Annibynnol Personol (PIP), Tystysgrif Hawl i Daliad Anabledd Plant (CDP), Tystysgrif Hawl i Daliad Anabledd Oedolion (ADP), Tystysgrif Hawl i Lwfans Byw i'r Anabl i Oedolion yn yr Alban (SADLA) neu WPA442

**Rhaid i'r holl ddogfennau uchod fod yn rhai gwreiddiol; nid llungopïau na chopïau ffacs.**

- **Tystysgrif yswiriant neu sicrwydd yswiriant** (derbynnir copïau wedi eu lawrlwytho, ni dderbynnir llungopïau) sy'n ddilys ar y dyddiad mae'r dreth yn dod i rym, ar gyfer cerbydau a gofrestrwyd â chyfeiriad yng Ngogledd Iwerddon

## E Sut i dalu

Yn Swyddfa'r Post gallwch dalu gydag arian parod, debyd uniongyrchol (os yn berthnasol), cerdyn debyd, cerdyn credyd, siec neu archeb bost (yn daladwy i 'Swyddfa'r Post Cyf').

Os ydych yn sefydlu debyd uniongyrchol ar gyfer eich treth cerbyd, rhaid ichi lenwi'r 'Cais am Ddebyd Uniongyrchol' (VDD1W).

Os anfonwch eich cais drwy'r post i DVLA, gwnewch sieciau neu archebion post yn daladwy i 'DVLA, Abertawe'. Peidiwch ag anfon arian parod neu archebion post gwag. Ni allwn dderbyn sieciau sydd wedi'u difrodi neu eu newid. Os ydych yn anfon siec wedi'i difrodi neu ei newid atom, bydd eich cais yn cael ei wrthod a'i ddychwelyd atoch.

Rhoddir y gwahanol gyfraddau treth yn **www.gov.uk/treth-car** ac yn 'Cyfraddau treth cerbyd' (V149W) y gallwch eu cael yn **www.gov.uk**

**Os byddwch yn talu gyda siec sy'n bownsio, ni fydd y cerbyd wedi ei drethu.**

## F Nodiadau arbennig

**Gallwch drethu eich cerbyd yn un o** ganghennau Swyddfa'r Post sy'n delio â threth cerbyd drwy ddefnyddio eich V5CW neu slip ceidwad newydd gwyrdd. Efallai y bydd angen ichi hefyd lenwi 'Cais am dystysgrif cofrestru cerbyd' (V62W), os mai dim ond y slip gwyrdd sydd gennych.

**Os nad oes gennych V5CW neu'r slip ceidwad newydd gwyrdd bydd angen ichi lenwi V62W gyda'r ffurflen hon.** Os nad chi yw ceidwad cofrestredig y cerbyd efallai na fyddwch yn gallu ei drethu nes y byddwch yn cael V5CW yn eich enw chi. Mae'n rhaid ichi gadw'r cerbyd oddi ar y ffordd yn ystod y cyfnod hwn.

Os ydych wedi cael V5CW yn eich enw o'r blaen ar gyfer y cerbyd hwn a'i bod wedi cael ei cholli, ei dwyn, ei difetha neu ei dinistrio ac nid oes unrhyw newid i'r cerbyd neu'ch manylion personol, gallwch wneud cais am un ddyblyg yn **www.gov.uk/llyfr-log-cerbyd**. Byddwch yn gallu trethu'ch cerbyd ar yr un pryd.

**Gallwch lawrlwytho'r ffurflen V62W o www.gov.uk/dvlaforms** neu gael un o unrhyw gangen o Swyddfa'r Post sy'n delio â threth cerbyd.

## G Gwybodaeth bellach

I gael rhagor o wybodaeth am drethu eich cerbyd ewch i **www.gov.uk/treth-car**

Nid oes rhaid i rai cerbydau gael prawf MOT. Am ragor o wybodaeth, gweler y 'Datganiad eithriad rhag cael MOT' (V112W) neu'r 'Datganiad eithriad rhag prawf cerbydau nwyddau' (V112G). Gallwch gael y rhain o **www.gov.uk** ac o ganghennau Swyddfa'r Post sy'n delio â threth cerbyd. Os yw eich cerbyd wedi ei eithrio rhag profion, dylech lenwi a llofnodi'r V112W neu'r V112G a'i hanfon gyda'r cais hwn.

Os nad ydych yn fodlon â'r gwasanaeth a dderbyniwch, ewch i **www.gov.uk/dvla-cymraeg** i gael gwybodaeth am ein gweithdrefn gwyno.

Gallwch gysylltu â ni yn y ffyrdd canlynol:

Dros y ffôn: **0300 790 6802** neu **0300 790 6819** am y llinell uniongyrchol Gymraeg.

Mae'r llinellau ffôn ar agor rhwng 8am a 7pm, dydd Llun i ddydd Gwener, a rhwng 8am a 2pm ar ddydd Sadwrn. Bydd rhai galwadau'n cael eu monitro at ddibenion hyfforddiant ac ansawdd.

Drwy ysgrifennu i: Ymholiadau Cwsmeriaid (Cerbydau), DVLA, Abertawe SA6 7JL.

## H Diogelu data

Mae DVLA yn trafod eich data personol yn unol â chyfraith cerbydau ffyrdd a chyfreithiau gwarchod data. Mae'r gyfraith yn ein galluogi ni i ryddhau eich data i'r heddlu a chyrff gorfodaeth eraill. Rydym hefyd yn darparu data i gwmnïau eraill ble y mae'r gyfraith yn ei ganiatáu. Am wybodaeth bellach ynghylch sut rydym yn prosesu eich data, eich hawliau a phwy i gysylltu â nhw, gweler ein hysbysiad preifatrwydd yn **www.gov.uk/dvla/polisi-preifatrwydd**

CUSTOMER SERVICE EXCELLENCE
RHAGORIAETH MEWN GWASANAETH I GWSMERIAID
CSE
INVESTORS IN PEOPLE™
We invest in people Gold
Rydym yn buddsoddi mewn pobl Aur

**Gallwch ddewis derbyn nodiadau atgoffa treth cerbyd drwy negeseuon testun neu e-byst**

**Ewch i: gov.uk/dvla/cyfrif**